OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 2304

# Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif2) 2002

**Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr erthygl hon, ni chaiff neb symud anifail o unrhyw safle (y cyfeirir ato yn yr erthygl hon fel y "safle tarddiad") oni bai fod y gofynion canlynol yn cael eu bodloni—

(a) mae'r symudiad yn cael ei wneud o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd ac yn unol â'r amodau ynddi; a

(b) nid oes unrhyw anifail wedi'i symud i'r safle tarddiad (neu safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol) yn ystod y cyfnod o 20 diwrnod cyn y diwrnod y mae'r anifail a grybwyllwyd gyntaf i'w symud (a'r cyfnod hwnnw yn un y cyfeirir ato yr erthygl hon fel "y cyfnod segur").

(2) Ni fydd y gofyniad a gynhwysir ym mharagraff (1)(b) o'r erthygl hon yn gymwys—

(a) os yw'r safle tarddiad yn farchnad, canolfan gasglu, canolfan ffrwythloni artiffisial, neu le ar gyfer triniaeth filfeddygol;

(b) os yw'r symudiad yn—

(i) symudiad mochyn

(aa) fel y cyfeirir ato yn erthgyl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995(**1**); neu

(bb) i farchnad ar gyfer moch y bwriedir eu cigydda ar unwaith;

(ii) symudiad anifail yn uniongyrchol i ladd-dy, neu i ganolfan gasglu ar gyfer anifeiliaid y bwriedir eu cigydda ar unwaith, ar yr amod yn yr achos olaf—

(aa) nad yw safle'r ganolfan gasglu wedi'i ddefnyddio ac na fydd yn cael ei ddefnyddio ar yr un diwrnod ar gyfer sioe neu arddangosfa neu ar gyfer gwerthu neu fasnachu anifeiliaid at unrhyw ddiben heblaw eu cigydda ar unwaith; a

(bb) bod pob anifail sy'n cael ei symud i'r ganolfan gasglu yn cael ei symud oddi yno yn uniongyrchol i ladd-dy;

(iii) symudiad llo sy'n llai na 30 diwrnod oed (y dyroddwyd pasbort gwartheg ar ei gyfer ac y mae tagiau clustiau wedi'u dodi arno yn unol ag erthygl 3(3) o'r Rheoliadau Adnabod Gwartheg) o safle tarddiad a'r safle hwnnw oedd naill ai'r safle lle cafodd y llo ei eni neu safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol, ac eithrio na fydd yr esemptiad hwn yn gymwys—

(aa) os yw unrhyw anifail wedi'i symud yn ystod y cyfnod segur yn uniongyrchol o farchnad i'r safle tarddiad neu i safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol;

(**1**) O.S. 1995/11, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/2922 ac, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2001/2662 ac O.S. 2002/281.

(bb) os yw'r llo yn cael ei symud i ganolfan gasglu neu farchnad; neu

(cc) os yw'r llo yn cael ei symud i sioe neu arddangosfa;

(iv) symudiad oen neu fyn sy'n llai na 7 diwrnod oed o safle tarddiad a'r safle hwnnw yw naill ai'r safle lle cafodd ei eni neu safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol i unrhyw safle arall nad yw'n bellach na 10 cilometr ar hyd y ffordd o'r safle tarddiad os maethu'r oen neu'r myn hwnnw yw diben y symudiad hwnnw;

(v) dychweliad dafad o dir tac i'r safle y cafodd ei symud ohono yn wreiddiol neu i safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol ar yr amod bod y tir tac wedi'i reoli ar wahân i weddill unrhyw safle yr oedd yn rhan ohono ar bob adeg yn ystod y cyfnod yr oedd y ddafad yno a bod gan y tir tac hwnnw rif daliad ar wahân;

(vi) symudiad anifail rhwng safle mewn grŵ p meddiannaeth unigol yn unol ag awdurdod a ddyroddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol;

(vii) symudiad anifail i sioe neu arddangosfa o sioe neu arddangosfa arall;

(viii) symudiad anifail i sioe neu arddangosfa, heblaw o ddigwyddiad arall o'r fath neu o dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (x), ar yr amod ei fod wedi'i ynysu am yr 20 diwrnod cyn dyddiad y symud o bob anifail arall ar y safle tarddiad ac unrhyw safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol a'i fod wedi'i nodi, wedi'i farcio neu wedi'i dagio—

(aa) yn achos gwartheg yn unol â gofynion y Rheoliadau Adnabod Gwartheg;

(bb) yn achos dafad neu afr â rhif adnabod unigol; neu

(cc) yn achos carw yn unol â gofynion Gorchymyn Darfodedigaeth (Ceirw) 1989(**2**);

(ix) symudiad anifail i sioe neu arddangosfa, o safle y mae wedi'i symud iddo o sioe neu arddangosfa arall, ar yr amod nad oes unrhyw anifail arall wedi'i symud i'r safle hwnnw (neu safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol) yn ystod y cyfnod o 20 diwrnod cyn y diwrnod y mae'r anifail a grybwyllwyd gyntaf i fod i gael ei symud;

(x) symudiad anifail o sioe neu arddangosfa i unrhyw le heblaw sioe neu arddangosfa arall ar yr amod mai yn ystod yr 20 diwrnod ar ôl y symudiad o'r sioe neu'r arddangosfa—

(aa) nad yw'n cael ei symud o'r safle newydd ac eithrio i sioe neu arddangosfa arall; a

(bb) ei fod yn cael ei ynysu oddi wrth bob anifail arall tra bydd ar y safle newydd;

(xi) symudiad gwartheg o safle tarddiad o dan amgylchiadau—

(aa) lle'r oedd yr unig symudiad anifeiliaid i'r safle tarddiad yn symudiad llo llai na 30 diwrnod oed a brynwyd o'r safle lle cafodd ei eni neu o safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol;

(bb) lle mae'r safle tarddiad wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio fel uned magu lloi arbenigol drwy hysbysiad a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol; ac

(cc) lle dyroddwyd pasbortau gwartheg ar gyfer y gwartheg sydd i'w symud a lle cawsant eu tagio yn unol â'r Rheoliadau Adnabod Gwartheg;

(xii) symudiad anifail i'w allforio'n uniongyrchol neu i ganolfan gasglu neu ganolfan gynnull a gymeradwywyd o dan reoliad 12(2) o Reoliadau Anifeiliaid a

(**2**) O.S. 1989/878, y gwnaed diwygiadau perthnasol iddo gan O.S. 1993/2010.

Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000(**3**) cyn yr allforio hwnnw;

(xiii) symudiad anifail sydd wedi'i fewnforio i'r Deyrnas Unedig yn uniongyrchol i unrhyw safle o'i bwynt mynediad i'r Deyrnas Unedig; neu

(xiv) symudiad anifail rhwng tir y mae gan berchennog neu geidwad yr anifail hawl gofrestredig i gomin drosto ac

(aa) safle ym meddiannaeth perchennog neu geidwad yr anifail ac y mae'r hawl gofrestredig i gomin yn cael ei harfer fel rheol mewn perthynas ag ef; neu

(bb) safle ym meddiannaeth unrhyw berson arall y mae ganddo hawl gofrestredig i gomin dros y tir hwnnw ac y mae'r hawl gofrestredig i gomin yn cael ei harfer fel rheol mewn perthynas ag ef;

(xv) symudiad anifail rhwng safle ym meddiannaeth perchennog neu geidwad yr anifail ac y mae hawl gofrestredig i gomin dros dir yn cael ei harfer fel rheol mewn perthynas ag ef a safle ym meddiannaeth unrhyw berson arall a chanddo hawl gofrestredig i gomin dros y tir hwnnw ac y mae hawl gofrestredig i gomin y person arall hwnnw yn cael ei harfer fel rheol mewn perthynas ag ef;

(xvi) symudiad moch, gwartheg, neu ddefaid i ganolfan ffrwythloni artiffisial, ar yr amod, yn achos defaid, eu bod wedi'u hynysu yn ystod yr 20 diwrnod cyn y symudiad o bob anifail arall ar y safle tarddiad ac unrhyw safle sy'n gysylltiedig â hwy mewn grŵ p meddiannaeth unigol;

(xvii) symudiad moch, defaid, geifr, gwartheg neu geirw i le ar gyfer triniaeth filfeddygol ar yr amod (ac eithrio yn achos moch) y bydd yr anifeiliaid yn cael eu hynysu oddi wrth bob anifail arall yno tra bydd y driniaeth yn cael ei chyflawni;

(xviii) symudiad tarw neu hwrdd neu garw o'r naill ryw neu'r llall, ac eithrio o farchnad, at ddibenion bridio, ar yr amod ei fod yn cael ei nodi, ei farcio neu ei dagio—

(aa) yn achos tarw yn unol â gofynion y Rheoliadau Adnabod Gwartheg;

(bb) yn achos hwrdd â rhif adnabod unigol; neu

(cc) yn achos carw yn unol â gofynion Gorchymyn Darfodedigaeth (Ceirw) 1989;

ac, yn achos hwrdd, ei fod wedi'i ynysu am yr 20 diwrnod cyn y symudiad oddi wrth bob anifail arall ar y safle tarddiad ac unrhyw safle arall sy'n gysylltiedig â hwy mewn grŵ p meddiannaeth unigol ac ar yr amod pellach bod y perchennog neu'r ceidwad, yn union wedi i'r tarw, y carw neu'r hwrdd gyrraedd y safle y mae'n cael ei symud iddo, yn llofnodi datganiad ei fod am gael ei ddefnyddio at ddibenion bridio;

(xix) symudiad gafr o'r naill ryw neu'r llall, ac eithrio o farchnad, at ddibenion bridio os yw'r afr wedi'i dynodi â rhif adnabod unigol ar yr amod—

(aa) ei bod yn cael ei hynysu am yr 20 diwrnod cyn y symudiad oddi wrth bob anifail arall ar y safle tarddiad ac unrhyw safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol; neu

(bb) os yw wedi'i hynysu ar y safle tarddiad am lai na'r cyfnod hwnnw o 20 diwrnod, ei bod yn cael ei symud i safle arall lle'r oedd wedi'i hanfon o'r blaen at ddibenion bridio ac yr oedd wedi'i dychwelyd ohono cyn cael ei hynysu felly,

(**3**) O.S. 2000/1673, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/2266, O.S. 2000/2524, O.S. 2000/2900 and 2000/3128 ac mewn perthynas â Chymru yn unig, O.S. 2002/1039.

ac ar yr amod pellach bod datganiad yn cael ei lofnodi gan ei pherchennog neu ei cheidwad yn union ar ôl iddi gyrraedd y safle y mae'n cael ei symud iddo at ddibenion bridio;

(xx) symudiad defaid sy'n dychwelyd o safle y cawsant eu symud iddo ond er mwyn cymryd rhan mewn treial cŵ n defaid yno; neu

(xxi) symudiad anifail sy'n cael ei symud i labordy er mwyn cynnal profion diagnostig i ddarganfod a oes clefyd wedi effeithio ar yr anifail neu a yw wedi bod yn agored i glefyd; neu

(c) os oes caniatâd yn datgymhwyso'r cyfnod segur wedi'i ddyroddi gan arolygydd milfeddygol mewn perthynas â'r symudiad.

(3) At ddibenion paragraff (1)(b) uchod rhaid peidio â rhoi unrhyw ystyriaeth i symudiad y canlynol i'r safle tarddiad neu safle arall yn yr un grwp meddiannaeth—

(a) mochyn

(i) sy'n cael ei ddychwelyd i'r safle hwnnw o le yr oedd wedi'i symud iddo ar gyfer bridio, canolfan ffrwythloni artiffisial neu le yr oedd wedi'i symud iddo ar gyfer triniaeth filfeddygol, ar yr amod ei fod wedi ei ynysu am 20 diwrnod ar ôl dyddiad ei ddychwelyd oddi wrth bob anifail arall; neu

(ii) os yw'r symudiad hwnnw yn symudiad y cyfeirir ato yn erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995;

(b) anifail sy'n cael ei symud i'r safle hwnnw yn uniongyrchol o arddangosfa neu sioe ar yr amod—

(i) bod yr anifail yn cael ei ynysu yn unol â gofynion is-baragraff (2)(b)(x)(bb); a

(ii) bod presenoldeb yr anifail yn yr arddangosfa neu'r sioe wedi'i hysbysu i'r awdurdod lleol;

(c) tarw neu garw o'r naill ryw neu'r llall, ar yr amod nad yw wedi dod o farchnad, ei fod wedi'i nodi, wedi'i farcio neu wedi'i dagio—

(i) yn achos tarw yn unol â gofynion y Rheoliadau Adnabod Gwartheg;

(ii) yn achos carw yn unol â gofynion Gorchymyn Darfodedigaeth (Ceirw) 1989;

ac ar yr amod pellach bod y perchennog neu'r ceidwad, yn union wedi iddo gyrraedd, yn llofnodi datganiad ei fod wedi ei symud at ddibenion bridio;

(ch) hwrdd at ddibenion bridio a hwnnw'n un sydd heb ddod o farchnad ar yr amod—

(i) ei fod wedi'i ddynodi â rhif adnabod unigol;

(ii) bod datganiad ei fod wedi ei symud at ddibenion bridio yn cael ei lofnodi gan ei berchennog neu'i geidwad, yn union ar ôl iddo gyrraedd y safle hwnnw; a

(iii) na symudwyd unrhyw anifeiliaid i'r safle y mae wedi dod ohono neu safle arall sy'n gysylltiedig â hwy mewn grŵp meddiannaeth unigol yn ystod y cyfnod o 20 diwrnod cyn y diwrnod symud neu fod yr hwrdd wedi'i ynysu yn ystod y cyfnod hwnnw oddi wrth bob anifail arall ar safle o'r fath;

(d) gafr o'r naill ryw neu'r llall at ddibenion bridio nad yw wedi dod o farchnad, ac sydd wedi'i dynodi â marc adnabod unigol ar yr amod—

(i) nad oes unrhyw anifeiliaid wedi'u symud i'r safle y mae wedi dod ohono na safle arall sy'n gysylltiedig ag ef mewn grŵ p meddiannaeth unigol yn ystod y cyfnod o 20 diwrnod cyn dyddiad y symudiad;

(ii) bod yr afr wedi'i hynysu drwy gydol y cyfnod hwnnw oddi wrth bob anifail arall ar safle o'r fath; neu

(iii) bod yr afr wedi'i hynysu oddi wrth bob anifail arall ar safle o'r fath ers iddi gael ei dychwelyd yno o'r safle tarddiad lai nag 20 diwrnod cyn hynny yn dilyn ymgais blaenorol i fridio,

ac ar yr amod pellach bod ei pherchennog neu ei cheidwad wedi llofnodi datganiad yn union ar ôl iddi gyrraedd y safle hwnnw fod yr afr wedi'i symud felly at ddibenion bridio;

(dd) bod gafr o'r naill ryw neu'r llall sy'n cael ei dychwelyd i'r safle hwnnw o le yr oedd wedi'i symud iddo at ddibenion bridio ar yr amod ei bod yn cael ei hynysu oddi wrth bob anifail arall sydd yno am 20 diwrnod ar ôl dyddiad ei dychwelyd oni bai ei bod yn cael ei hanfon yn ôl i'r lle hwnnw ar gyfer ymgais pellach i fridio a'r afr honno wedi cael ei hynysu felly ers dyddiad ei dychwelyd;

(e) unrhyw ddefaid neu wartheg y bwriedir eu defnyddio at ddibenion bridio sydd i'w cyflawni cyn 1 Chwefror 2003 neu cyn i un mis o ddyddiad y symudiad ddod i ben, p'un bynnag yw'r diweddaraf ar yr amod—

(i) bod y defaid neu'r gwartheg yn cael eu symud ar unwaith, wrth iddynt gyrraedd y safle hwnnw a hynny heb ddod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid eraill sydd yno eisoes, i mewn i gyfleuster ynysu y mae'r holl ofynion a bennir ym mharagraff (9) wedi'u bodloni mewn perthynas ag ef neu y gellir eu bodloni ar yr amser sy'n gymwys ("cyfleuster ynysu ar gyfer bridio") a'u bod yn cael eu cadw yn y cyfleuster ynysu hwnnw ar gyfer bridio naill ai—

(aa) tan y daw'r cyfnod sy'n diweddu ar ddechrau'r 21fed diwrnod ar ôl iddynt gyrraedd i ben; neu

(bb) os oes unrhyw anifail arall, ac eithrio unrhyw rai o'r un safle neu o safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol y mae unrhyw rai o'r gwartheg neu'r defaid i'w bridio â hwy, yn cael ei symud i mewn i'r cyfleuster yn ystod y cyfnod hwnnw, am gyfnod sy'n dod i ben 20 diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r anifail arall hwnnw yn cael ei symud i mewn i'r cyfleuster;

(ii) mai yn ystod yr holl gyfnod y mae'r defaid neu'r gwartheg yn cael eu cadw yn y cyfleuster ynysu ar gyfer bridio yn unol ag is-baragraff (i) y bydd yr holl ofynion a bennir ym mharagraff (9) yn cael eu bodloni neu eu dilyn ar bob adeg sy'n gymwys;

(iii) bod y defaid a'r gwartheg yn cael eu dynodi—

(aa) yn achos hyrddod â rhif adnabod unigol neu Farc S;

(bb) yn achos mamogiaid â marc adnabod unigol neu farc paent hollol weladwy y mae ei liw a'i ddyluniad yn ddigon neilltuol i'w gwneud yn bosibl iddynt gael eu gwahaniaethu'n rhwydd oddi wrth bob dafad arall ar y safle gan gynnwys unrhyw rai eraill sydd eisoes yn y cyfleuster ynysu ar gyfer bridio; ac

(cc) yn achos gwartheg o'r naill ryw neu'r llall, yn unol â gofynion y Rheoliadau Adnabod Gwartheg;

(iv) bod datganiad yn cael ei lofnodi gan neu ar ran eu perchennog neu eu ceidwad yn union ar ôl iddynt gyrraedd a'r datganiad hwnnw'n dweud eu bod i gael eu cadw at ddibenion bridio yn unig yn ystod y cyfnod cyn 1 Chwefror 2003 neu cyn i un mis o ddyddiad y symudiad ddod i ben, p'un bynnag yw'r cynharaf;

(v) bod unrhyw anifeiliaid eraill—

(aa) sy'n cael eu cadw yn y cyfleuster ynysu ar gyfer bridio pan fydd y defaid neu'r gwartheg yn cyrraedd, boed hynny'n unol â'r ddarpariaeth hon neu fel arall; neu

(bb) sy'n cael eu symud i mewn i'r cyfleuster hwnnw o rywle arall ar y safle hwnnw wrth i'r defaid neu'r gwartheg gyrraedd neu ar ôl hynny,

yn cael eu cadw hefyd yn y cyfleuster ynysu ar gyfer bridio tan y daw 20 diwrnod o'r dyddiad y cyrhaeddodd y defaid neu'r gwartheg i ben, ni waeth a fyddai unrhyw gyfnod arall pryd y byddai'n ofynnol cadw'r anifeiliaid eraill hynny yn y cyfleuster hwnnw yn dod i ben yn ystod yr 20 diwrnod hwnnw;

(vi) bod y gwartheg neu'r defaid, ynghyd ag unrhyw anifeiliaid eraill y cyfeirir atynt ym mharagraff (v)(aa), yn cael eu harolygu ac, os bydd angen, eu harchwilio i weld a oes unrhyw arwyddion clefyd arnynt gan filfeddyg cymwysedig yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar y pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl diwrnod eu cyrhaeddiad ac yn diweddu ar yr ugeinfed diwrnod wedi hynny;

(vii) bod y milfeddyg cymwysedig sydd wedi cyflawni'r arolygiad a'r archwiliad y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraff (vi) yn llofnodi datganiad yn cadarnhau ei fod wedi cyflawni'r arolygiad a'r archwiliad hwnnw;

(viii) nad oes unrhyw hysbysiad wedi'i ddyroddi o dan baragraff (10) mewn perthynas â chyfleuster sydd wedi'i fwriadu i gael ei ddefnyddio fel cyfleuster ynysu ar gyfer bridio yn y safle hwnnw ar wahân i unrhyw hysbysiad o'r fath sydd wedi'i ddirymu o dan baragraff (11);

(f) hwrdd neu darw sydd wedi'i ddychwelyd heb ei werthu o farchnad yr oedd wedi'i anfon iddi i gael ei werthu at ddibenion bridio ar yr amod—

(i) bod yr hwrdd neu'r tarw yn cael ei symud yn union ar ôl iddo gyrraedd y safle hwnnw a hynny heb ddod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid eraill sydd yno eisoes, i mewn i gyfleuster ynysu ar gyfer bridio a'i fod yn cael ei gadw yn y cyfleuster ynysu hwnnw ar gyfer bridio naill ai—

(aa) tan y daw'r cyfnod sy'n diweddu ar ddechrau'r 21fed diwrnod ar ôl iddo gyrraedd i ben; neu

(bb) os oes unrhyw anifail arall, ac eithrio un o'r un safle neu o safle arall yn yr un grŵp meddiannaeth unigol y mae'r hwrdd neu'r tarw i gael eu bridio â hwy, yn cael ei symud i mewn i'r cyfleuster hwnnw yn ystod y cyfnod hwnnw, am gyfnod sy'n dod i ben 20 diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r anifail arall hwnnw yn cael ei symud i mewn i'r cyfleuster;

(ii) mai yn ystod yr holl gyfnod y mae'r hwrdd neu'r tarw yn cael ei gadw yn y cyfleuster ynysu ar gyfer bridio yn unol ag is-baragraff (i) y bydd yr holl ofynion a bennir ym mharagraff (9) yn cael eu bodloni neu eu dilyn ar bob adeg sy'n gymwys;

(iii) bod yr hwrdd neu'r tarw yn cael ei ddynodi—

(aa) yn achos hwrdd â rhif adnabod unigol a,

(bb) yn achos tarw, yn unol â gofynion y Rheoliadau Adnabod Gwartheg;

(iv) bod rhaid i unrhyw anifail arall—

(aa) sy'n cael ei gadw yn y cyfleuster ynysu ar gyfer bridio pan fydd yr hwrdd neu'r tarw yn dychwelyd, p'un a yw hyn yn unol â'r ddarpariaeth hon neu fel arall; neu

(bb) sy'n cael ei symud i mewn i'r cyfleuster hwnnw o rywle arall ar yr un safle neu safle arall yn yr un grwp meddiannaeth unigol wrth i'r hwrdd neu'r tarw ddychwelyd neu ar ôl hynny,

aros hefyd yn y cyfleuster hwnnw tan y daw yr 20 diwrnod o ddyddiad dychwelyd yr hwrdd neu'r tarw i ben, ni waeth a fyddai unrhyw gyfnod arall pryd y byddai'n ofynnol cadw'r anifail arall hwnnw yno yn dod i ben yn ystod yr 20 diwrnod hwnnw;

(v) bod yr hwrdd neu'r tarw ynghyd ag unrhyw anifail arall y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (iv)(aa) yn cael ei arolygu ac, os bydd angen, yn cael ei archwilio i weld a oes unrhyw arwyddion clefyd arnynt gan filfeddyg cymwysedig yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar y pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl diwrnod ei gyrhaeddiad ac sy'n diweddu ar yr ugeinfed diwrnod wedi hynny;

(vi) bod y milfeddyg cymwysedig sydd wedi cyflawni'r arolygiad a'r archwiliad y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraff (v) yn llofnodi datganiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cyflawni'r arolygiad a'r archwiliad hwnnw; a

(vii) nad oes unrhyw hysbysiad wedi'i ddyroddi o dan baragraff (10) mewn perthynas â chyfleuster y bwriadwyd ei ddefnyddio fel cyfleuster ynysu ar gyfer bridio ar y safle hwnnw ar wahân i unrhyw hysbysiad o'r fath sydd wedi'i ddirymu o dan baragraff (11);

(ff) dafad sy'n cael ei dychwelyd i'r safle hwnnw o dir tac ar yr amod bod y tir tac wedi'i reoli ar wahân i unrhyw safle yr oedd yn rhan ohono yn ystod y cyfnod yr oedd y ddafad yno a bod gan y tir tac hwnnw rif daliad gwahanol i weddill y safle hwnnw;

(g) llo sy'n llai na 30 diwrnod oed o'r safle lle cafodd ei eni neu safle arall yn yr un grŵ p meddiannaeth unigol, ar yr amod bod y safle tarddiad wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio fel uned magu lloi arbenigol drwy hysbysiad a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol;

(ng) anifail naill ai—

(i) o'i bwynt mynediad i'r Deyrnas Unedig ar ôl cael ei fewnforio o Aelod-wladwriaeth arall; neu

(ii) o'r safle y mae wedi'i symud iddo o'i bwynt mynediad i'r Deyrnas Unedig;

(h) anifail y daethpwyd ag ef i'r safle hwnnw mewn cerbyd ar yr amod—

(i) nad yw'r anifail wedi'i ddadlwytho o'r cerbyd hwnnw ar y safle hwnnw, a

(ii) bod symudiad o'r fath yn cael ei gyflawni yn unol ag amodau trwydded a ddyroddwyd o dan baragraff (1)(a);

(i) oen llai na 7 diwrnod oed o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (2)(b)(iv);

(j) gwartheg sy'n cael eu dychwelyd i'r safle hwnnw o ganolfan ffrwythloni artiffisial;

(l) defaid sy'n cael eu dychwelyd i'r safle hwnnw o ganolfan ffrwythloni artiffisial ar yr amod eu bod wedi bod yn y ganolfan honno am yr 20 diwrnod blaenorol;

(ll) defaid, geifr, gwartheg neu geirw sy'n cael eu dychwelyd i'r safle hwnnw o le ar gyfer triniaeth filfeddygol na symudiad unrhyw epil y maent wedi esgor arnynt tra'r oeddent yno ar yr amod bod yr anifeiliaid hynny a'r epil hynny wedi'u hynysu oddi wrth bob anifail arall tra'r oeddent yn y fan honno; neu

(m) anifail a symudwyd i'r safle hwnnw er mwyn cynnal profion diagnostig i ddarganfod a yw clefyd wedi effeithio ar yr anifail neu a yw wedi bod yn agored i glefyd.

(4) Ni fydd y gofyniad a nodir ym mharagraff (1) uchod yn gymwys yn achos unrhyw symudiad a awdurdodwyd o dan drwydded a ddyroddwyd o dan erthygl 12 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995.

(5) Ni fydd y gofynion a nodir ym mharagraff (1)(a) uchod yn gymwys mewn unrhyw achos y mae trwydded wedi'i dyroddi neu wedi'i rhoi mewn perthynas ag ef ar ôl dyfodiad i rym y Gorchymyn hwn o dan Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983 i awdurdodi symud anifail i unrhyw safle neu ohoNo.

(6) Ni fydd y gofynion a nodir ym mharagraff (1) yn gymwys i symudiad unrhyw anifail i unrhyw sŵ a drwyddedwyd o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵ au 1981(**4**) nac ohoNo.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8) ac eithrio yn yr achosion y cyfeirir atynt ym mharagraffau 2(b)(xvii) ac is-baragraffau (3)(e), (j) ac (ll), os yw'n ofynnol i unrhyw anifail, heblaw mochyn, gael ei ynysu at unrhyw ddiben o dan yr erthygl hon, mae hyn yn golygu wedi'i ynysu mewn cyfleusterau ynysu sydd wedi'u cymeradwyo drwy hysbysiad gan arolygydd milfeddygol.

(8) Ni chaniateir defnyddio unrhyw gyfleusterau ynysu a ddefnyddiwyd at ddibenion is-baragraffau (3)(e) ac (f) yr un pryd er mwyn ynysu anifeiliaid at unrhyw ddiben arall o dan y Gorchymyn hwn.

(9) At ddibenion paragraffau (9) a (10) ac is-bargraffau (3)(e) ac (f), mae cyfleuster ynysu yn bodloni gofynion y paragraff hwn i fod yn "gyfleuster ynysu ar gyfer bridio" ar yr amod—

(a) bod pob un o'r gofynion a bennir yn Rhan I o'r Atodlen mewn perthynas â'r cyfleuster yn cael eu bodloni neu eu dilyn;

(b) bod arolygiad i sicrhau bod y gofynion hynny yn cael eu bodloni neu fod modd eu dilyn ar bob adeg gymwysadwy wedi'i gynnal cyn bod y cyfleuster yn cael ei ddefnyddio gyntaf at dibenion is-baragraffau (3)(e) ac (f) gan filfeddyg cymwysedig;

(c) bod adroddiad ar yr arolygiad hwnnw sydd i raddau helaeth ar y ffurf a nodir yn Rhan II o'r Atodlen wedi'i gwblhau a'i lofnodi gan y milfeddyg cymwysedig sydd wedi cyflawni'r arolygiad hwnnw a chan y person a fydd yn geidwad yr anifeiliaid sydd i'w cadw yn y cyfleuster a bod yr adroddiad wedi'i anfon at y cyfeiriad sydd wedi'i nodi ar y ffurflen honno;

(ch) nad yw'r adroddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn dangos bod y gofynion a nodir yn Rhan I o'r Atodlen heb eu bodloni neu na fyddai modd eu dilyn ar bob adeg gymwysadwy; a

(d) y cydymffurfiwyd yn llawn â phob cais gan arolygydd ar unrhyw adeg resymol—

(i) i fynd i mewn i'r cyfleuster ac unrhyw ran arall o'r safle lle mae'r cyfleuster (ac eithrio unrhyw annedd ddomestig)—

(aa) i ganfod a yw'r gofynion a bennir yn y paragraff hwn neu is-baragraffau (3)(e) neu (f) yn cael eu bodloni a'u dilyn ar bob adeg gymwysadwy neu a oes modd eu bodloni a'u dilyn ar yr adegau hynny; neu

(bb) i arolygu'r anifeiliaid yn y cyfleuster neu i'w harchwilio i weld a oes arwyddion clefyd arnynt; neu

(ii) i archwilio cofnodion symud neu adnabod neu'r datganiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (3)(e)(vii) a (3)(f)(vi) ar gyfer unrhyw rai o'r anifeiliaid sydd wedi'u cynnwys yn y cyfleuster,

a bod popeth angenrheidiol wed'i wneud i gydweithredu â'r arolygydd wrth iddo gyflawni'r camau hynny.

(10) Os yw arolygydd milfeddygol o'r farn nad yw cyfleuster sydd wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio fel cyfleuster ynysu ar gyfer bridio yn bodloni gofynion Rhan I o'r Atodlen, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i feddiannydd y safle lle mae'r cyfleuster ac i berchenogion neu geidwaid yr holl anifeiliaid ar y safle hwnnw a hwnnw'n hysbysiad sy'n pennu ym mha ffyrdd nad yw'r gofynion hynny yn cael eu bodloni a'r camau, os oes rhai, y dylid eu cymryd er mwyn eu bodloni.

(11) Caiff hysbysiad a ddyroddir o dan baragraff (10) gael ei amrywio neu ei ddirymu ar unrhyw bryd drwy hysbysiad ysgrifenedig pellach a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol neu swyddog arall i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Cynulliad Cenedlaethol a'i gyflwyno i'r personau y cyflwynwyd yr hysbysiad cyntaf iddynt.

(**4**) 1981 p.37.

(12) Pan fydd trwydded wedi ei dyroddi neu ei rhoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, arolygydd neu Weinidogion yr Alban o dan orchymyn a wnaed o dan adran 8 o'r Ddeddf i awdurdodi symud unrhyw anifail o safle sydd wedi'i leoli yn Lloegr neu yn yr Alban i safle sydd wedi'i leoli yng Nghymru neu i safle sydd wedi'i leoli yn yr Alban neu Loegr drwy unrhyw ran o Gymru, bydd unrhyw ddarpariaethau yn y drwydded honno sy'n berthnasol yn gymwys mewn perthynas â'r rhan honno o'r symudiad sy'n digwydd yng Nghymru fel petai'r drwydded honno yn drwydded a ddyroddwyd o dan baragraff (1)(a) a bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys yn unol â hynny.

(13) Pan fydd trwydded o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff (12) uchod yn awdurdodi symudiadau o unrhyw fath rhwng safleoedd o dan yr un rheolaeth, yna, heb ragfarnu darpariaethau'r paragraff hwnnw, bydd yn effeithiol fel petai hefyd yn awdurdod a ddyroddwyd er mwyn gwneud y safle yn grŵ p meddiannaeth unigol o dan y Gorchymyn hwn a bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys felly mewn perthynas â hi.